Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Egwyddorion cymhwyster TAG UG a Safon Uwch

Awst 2014



Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth rhif: 148/2014
Dyddiad cyhoeddi: Awst 2014
Yn disodli dogfen wybodaeth rhif: 142/2014

Egwyddorion cymhwyster TAG UG a Safon Uwch

Cynulleidfa

Sefydliadau dyfarnu a'r rhai sy'n darparu cymwysterau TAG UG a Safon Uwch yng Nghymru.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn pennu'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer yr holl gymwysterau TAG UG a Safon Uwch a ddatblygwyd i'w dysgu yng Nghymru o Fedi 2015 ymlaen.

Camau i'w cymryd

Rhaid i'r sefydliadau dyfarnu sicrhau bod pob TAG UG a Safon Uwch a ddatblygir i'w ddefnyddio yng Nghymru yn cwrdd â'r egwyddorion cyffredinol hyn.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cymwysterau a Rheoleiddio
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
Ffôn: 01443 663725
e-bost: QualsReform@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Cymwysterau Cymru yn www.cymwysteraucymru.org/ug-a-safon-uwch-amserlen-diwygio/

ISBN digidol 978 1 4734 1921 6
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22770

Cynnwys

Cyflwyniad **2**

Cynnwys **3**

Teitlau 3

Deunydd pwnc 3

Asesu 4

Adrodd 5

Cyflwyniad

1. Mae'r egwyddorion cymhwyster hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer yr holl fanylebau TAG UG a Safon Uwch newydd a diwygiedig sydd wedi'u datblygu i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

2. Mae'r egwyddorion hyn yn darparu'r fframwaith a'r meini prawf y mae sefydliad neu sefydliadau dyfarnu yn datblygu pob manyleb TAG UG a Safon Uwch i'w chyflwyno er mwyn ei hachredu yng Nghymru yn unol â nhw.

Cynnwys

Teitlau

3. Mae’n rhaid i deitlau cymwysterau TAG UG a Safon Uwch:

    3.1 ddefnyddio'r geiriau 'TAG UG' neu 'TAG Safon Uwch' ar gyfer dyfarniadau sengl

    3.2 defnyddio'r geiriau 'TAG UG (dyfarniad dwbl)' neu 'TAG Safon Uwch (dyfarniad dwbl)' os yw'n cyfateb i ddau gymhwyster UG neu Safon Uwch ar wahân.

Deunydd pwnc

4. Rhaid i’r deunydd pwnc a amlinellir yn y manylebau ar gyfer cymwysterau TAG UG a Safon Uwch, lle y bo’n briodol, ddatblygu'r sgiliau sy’n cael eu hasesu drwy Graidd Bagloriaeth Cymru:

    - Llythrennedd
    - Rhifedd
    - Llythrennedd Ddigidol
    - Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
    - Cynllunio a Threfnu
    - Creadigrwydd ac Arloesi
    - Effeithiolrwydd Personol.

5. Mae’n rhaid i gymwysterau UG:

    5.1 ddarparu cydbwysedd priodol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i gyfateb i flwyddyn gyntaf cwrs astudio Safon Uwch llawn

    5.2 cynnwys cyfanswm pwysoli o 40 y cant o’r Safon Uwch

    5.3 o ran manylebau dyfarniad dwbl, cynnwys cyfanswm pwysoli o 40 y cant o ddyfarniad dwbl Safon Uwch

    5.4 cynnwys persbectif Cymreig lle y bo’n briodol

    5.5 sicrhau dilyniant addas o'r rhaglen astudio berthnasol yng Nghyfnod Allweddol 4

    5.6 sicrhau bod dysgwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster wedi'u paratoi'n effeithiol ar gyfer symud ymlaen i unedau gwaith U2 yn yr un pwnc

5.7 paratoi dysgwyr yn effeithiol ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol a'r byd gwaith

5.8 sicrhau bod gofynion y cymhwyster yr un fath yn fras â gofynion cymwysterau TAG UG eraill yng Nghymru.

6. Rhaid i unedau U2 a gyfunir ag unedau UG er mwyn arwain at ddyfarnu Safon Uwch lawn:

6.1 ddarparu cydbwysedd priodol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i sicrhau dilyniant o astudiaethau UG

6.2 cynnwys cyfanswm pwysoli o 60 y cant o'r cymhwyster Safon Uwch

6.3 o ran manylebau dyfarniad dwbl, cynnwys cyfanswm pwysoli o 60 y cant o'r cymhwyster dyfarniad dwbl Safon Uwch

6.4 cynnwys persbectif Cymreig lle y bo'n briodol

6.5 cynnwys elfen gref o ddysgu synoptig yng nghynnwys y cwrs

6.6 sicrhau bod gofynion y cymhwyster yr un fath yn fras â gofynion cymwysterau TAG Safon Uwch eraill yng Nghymru

6.7 paratoi dysgwyr yn effeithiol ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol a'r byd gwaith.

Asesu

7. Mae'n rhaid i'r trefniadau asesu ar gyfer cymwysterau TAG UG a Safon Uwch:

7.1 gynnig y cyfle i ymgeiswyr gael eu hasesu ar ddiwedd y cwrs UG a'r cwrs U2, ond dim ond yn ystod cyfnod asesu'r haf

7.2 peidio â mynd y tu hwnt i'r isafswm amser arholi ar gyfer asesiadau allanol fel rheol, sef tair awr ar gyfer UG a phedair awr ar gyfer U2

7.3 nodi'r gydberthynas rhwng yr amcanion asesu a'r unedau asesu

7.4 dangos cyfran y marciau a bennir i bob amcan asesu (neu grŵp o amcanion asesu) ac i bob uned asesu

7.5 datgan yn glir a fydd amcan asesu yn cynnwys asesu cyfathrebu ysgrifenedig

7.6 cynnwys digon o waith asesu synoptig U2 i brofi dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'r cysylltiadau rhwng elfennau gwahanol y pwnc a'u dealltwriaeth gyfannol o'r pwnc

7.7 cynnwys cwestiynau sy'n rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr ennill marciau drwy ddangos eu gallu i:

(i) integreiddio a chymhwyso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau ar draws agweddau gwahanol ar y pwnc

(ii) llunio ymateb sy'n datblygu llinell resymu gynaledig, sy'n gydlynol, yn berthnasol, yn gynhwysfawr ac wedi ei strwythuro'n rhesymegol

7.8 sicrhau bod cywirdeb gramadegol ymgeiswyr yn cael ei asesu pan fydd yn ofynnol iddynt ddarparu ymatebion ysgrifenedig estynedig

7.9 bod yn gymaradwy i bob ymgeisydd, hyd yn oed pan fydd unedau asesu dewisol neu gwestiynau arholi dewisol

7.10 caniatáu i'r ymgeiswyr ailsefyll uned asesu unwaith yn unig gyda'r canlyniad gorau yn cyfrif tuag at y cymhwyster

7.11 defnyddio asesiad mewnol dim ond os mai hwn yw'r dull mwyaf addas o asesu sgiliau penodol o fewn yr amcanion asesu

7.12 fel arfer, cynnwys dwy uned UG ac o leiaf dwy uned U2.

Adrodd

8. Mae'n rhaid bod trefniadau ar gael ar gyfer graddio ac adrodd ar gymwysterau TAG UG a Safon Uwch fel bod:

8.1 cyrhaeddiad sy'n ddigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif UG yn cael ei adrodd ar raddfa pum gradd o A i E, ac A yw'r radd uchaf

8.2 cyrhaeddiad sy'n ddigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif Safon Uwch yn cael ei adrodd ar raddfa chwe gradd o A* i E, ac A* yw'r radd uchaf

8.3 cyrhaeddiad sy'n annigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif UG neu Safon Uwch yn cael ei adrodd fel Annosbarthedig neu U

8.4 y radd ar gyfer UG dyfarniad dwbl yn cael ei chofnodi ar ffurf: AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE

8.5 y radd ar gyfer Safon Uwch dyfarniad dwbl yn cael ei chofnodi ar ffurf: A*A*, A*A, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE.